Supporting charities, volunteers and communities

wcva

Yn cefnogi elusennau, gwirfoddolwyr a chymunedau

Wales voluntary sector funding conference 2007

Cardiff International Arena, 23 October 2007

Taking a strategic and sustainable approach to funding is vital if third sector organisations are to thrive, not just survive. This doesn't mean simply getting better at fundraising, or finding an everlasting source of funding (there aren't any!)

The sometimes neglected areas of planning, evaluating, developing skills and capacity, knowing (and being able to articulate) your outcomes, can all be as important as identification of future funding streams and income diversification.

This year's funding conference offers an overview of funding trends, opportunities and challenges, including an update on the latest developments within the European Convergence Programme, and a panel discussion involving each of the lottery distributors in Wales.

It also offers a wide range of practical workshops and seminars – all with an emphasis on sustainability. You won't find pots of gold or simple solutions to complex funding scenarios – but you *will* find out about:

Procurement tips and techniques

Raising funds through the web

Meeting the needs of 'outcomes funders'

Contracting with confidence

Improving your applications to trusts

...and more!

Early booking recommended!

Cefnogwyd gan
Supported by

CRONFA LOTERI FAWR
BIG LOTTERY FUND

Programme

10.15 **Welcome and Introduction**
Win Griffiths, WCVA Chair

10.30 **Plenary session 1: The current and future funding environment**
Anna Southall, trustee of the Barrow Cadbury Trust and Fund, member of the Advisory Panel on Futurebuilders and Vice Chair of the Big Lottery Fund's UK Board, provides an overview from a UK perspective. Followed by Q and As

11.05 **Plenary session 2: Getting to grips with the European Convergence Programme**
Gretel Leeb, Director of Programme Management Division, Wales European Funding Office, brings you up-to-date with the latest developments. Followed by Q and As

11.40 **Coffee**

12.00 **Workshops and seminars:**

1. **Procurement and the third sector**
2. **Sustainability – finding the right mix**
3. **Outcomes funding – explaining the difference**
4. **Grundtvig – your passport to European opportunities in adult education**
5. **Improve your applications for trust funding (to be repeated in afternoon session)**
6. **Make Gift Aid less taxing**
7. **New frontiers – raising funds through the internet**

13.10 **Lunch**

14:15 **Workshops and seminars:**

8. **Funding from Sports Council Wales**
9. **Get fit for ... trading**
10. **Improve your applications for trust funding**
11. **Contracts with confidence**
12. **How good is my project? A case study on self-evaluation**
13. **Unltd – supporting social entrepreneurs**

15.25 **Plenary session 3: The National Lottery in Wales – future programmes, future challenges**
The key Lottery distribution bodies in Wales provide a brief update on their funding programmes.

Ceri Doyle, Director for Wales, the Big Lottery Fund; Graham Williams, Active Communities Regional Manager, Sports Council Wales; Jennifer Stewart, Manager for Wales, Heritage Lottery Fund; and Jane Clarke, Director of Operations, Arts Council of Wales. Followed by a panel discussion.

16.20 **Closing remarks**

16.30 **Tea and coffee**

Workshops and seminars

1. Procurement and the third sector

- Third sector providers often believe they are disadvantaged when it comes to competing for public sector contracts
- Public sector procurers think they're doing everything they can to promote a level playing field

This unhappy mix has sometimes led to fractured relationships and missed opportunities.

This session aims to provide a clear explanation of public sector procurement rules and processes, with some practical tips on how to win tenders. It will also include an update on work being done by Value Wales and other organisations to address some of the challenges faced by third sector organisations in competing for public sector contracts.

Gunther Kostyra, Head of Sustainable Procurement Programme, Value Wales and Llinos Price, Supplier Champion for Ceredigion

2. Sustainable funding – finding the right mix

'We don't need to worry about our future, we've always been able to attract grant funding and are confident that we always will'.

Third sector organisations can normally locate funds to kick start projects, but find it difficult to secure funding for ongoing work. Many find themselves 'trapped' in the funding cycle and relying on grant funding as a main source of income.

This workshop raises awareness and understanding of sustainable funding and will help you 'find the right funding mix'.

- Sustainability – why now?
- What is sustainable funding?
- What is the income spectrum?
- Steps to sustainability

Sara Carroll and Nicola Llewelyn – WCVA, Sustainable Funding Cymru and Lorna Irwin, PAVS.

3. Outcomes – explaining the difference

Outcomes are the changes or difference that your project can make over time. An easy way to think of them is that they are the result of what you do, rather than the activities or services you provide. Big Lottery Fund (BIG) is an outcomes funder. This means that we are clear about the wider changes that we want our funding to make – we are more interested in the results that projects will achieve than the activities or services they provide.

The workshop will look at:

- What is an outcome?
- What is an outcomes funder? – BIG's approach to outcomes funding
- What do outcomes mean for projects?
- How can you show that you have met your outcomes?

Sue Spurrier and Fflur Lawton, Big Lottery Fund

4. Grundtvig – your passport to European opportunities in adult education

The Grundtvig programme is part of the European Commission's new Lifelong Learning Programme and aims to strengthen the European dimension in adult education and lifelong learning across Europe. Anyone in adult education can participate in the programme including adult learners, teachers and trainers from a variety of organisations including local authorities, non-governmental organisations, charities, universities, and community groups.

This workshop will outline the opportunities available under Grundtvig and explain how the programme offers a great learning and personal development experience for staff and learners alike.

Jane Nimmo, Head of Grundtvig, and Helen Hotchkiss, Grundtvig Project Manager

5. and 10. Improve your applications for trust funding

This interactive workshop will have a general focus considering what features make for a good (and bad) funding application from the perspectives of Esmee Fairbairn Foundation and Lloyds TSB Foundations. Hopefully, participants will leave with a better understanding of the way in which funders work and think, and have a few more ideas about how they might improve their applications in the future.

Esmee Fairbairn Foundation was established in 1961 by Ian Fairbairn whose company, M&G, pioneered financial products that broadened access to the stock market for ordinary people, and allowed them for the first time to share in the country's economic growth. His wife, Esmee, played a prominent role in developing the Women's Royal Voluntary Service and the Citizens Advice Bureaux movement before being killed in an air raid towards the end of the second world war.

The Foundation has attempted to remain true to Ian and Esmee's interests and concerns and current priorities cover four main programmes of activity – Arts and Heritage, Education, Environment and Social Change: Enterprise and Independence.

During 2007 the Foundation has been undertaking a wide-ranging organisational review with final guidelines due to be published in the Spring.

The **Lloyds TSB Foundations for England and Wales'** mission is to support and work in partnership with recognised charitable organisations which help disadvantaged people to play a fuller role in communities throughout England and Wales. As one of the UK's leading grant-makers the Foundation funds thousands of small and medium charities every year working to tackle disadvantage and has given grants of over £115 million during the last five years. The Foundation proves one to three year grants appropriate to the size of the charity and provides both core and project funding.

The Foundation is currently undertaking an in-depth review of its programmes for 2008.

John Mulligan, Esmee Fairbairn Foundation and Mike Lewis, Lloyds TSB Foundations

6. Make Gift Aid less taxing

Gift Aid is the most widely-used tax-efficient giving scheme in the UK and around 10 million adults use Gift Aid for one or more of their donations in an average month. However, more can be done to ensure that registered charities and smaller community organisations benefit fully from this unrestricted form of income. This workshop will benefit those involved in the management and fundraising of small to medium sized charities as well as community organisations. The workshop will:

Provide an overview of Gift Aid

- Consider ways of maximizing Gift Aid opportunities
- Discuss the future of Gift Aid following the Treasury's budget changes

Iestyn Evans, WCVA , Giving Wales Officer

7. New frontiers – raising funds through the internet

With online giving now topping £100m per year, 90% of large charities now offer the facility. Many are building online networks by setting up groups in Facebook, pages in MySpace, and virtual services in Second Life.

But in a rapidly changing and lightly controlled environment, voluntary organisations risk being drowned out, misrepresented, or simply left behind. And is online activity just a distraction from the serious work of changing people's real world lives?

This practical workshop will demystify new developments on the internet, and discuss the basics of putting together an online strategy. It will show how even the smallest organisation can punch above its weight through effective use of new technology.

Nick Aldridge, CEO, MissionFish UK (eBay's partner

charity) and Nick Croall, Charity Account Manager, everyclick

8. Funding opportunities from Sports Council Wales

'If it's up there, I'll give you the money myself.' Les Dennis, host of Family Fortunes

You might not think it, but we've got a lot in common with Mr Dennis...

Our bread and butter might be promoting wellbeing through physical activity and sport, and yours might be the environment, health, or community regeneration. Yet there's no denying that we're both aiming to enrich and enhance people's lives.

In fact, with a little financial backing from us, you might just be far better placed to deliver what we have in store...

This workshop will open your eyes to the opportunities that await by forging links with a brand new partner, and help you to discover a whole new world of opportunities for the voluntary sector. With a melting pot of ideas at our disposal – and the funding to set them into action – now is the time for us to expand our mutual horizons. And if your ideas are up there, we'll give you the money ourselves!

Angela Farr, Active Communities Senior Officer, Sports Council Wales

9. Get fit for... trading

Third sector organisations are becoming increasingly aware that they should be looking at developing a sustainable funding mix and reducing grant dependency. This workshop will benefit those looking to generate income through trading goods or services.

It will also provide an overview of the routes invovled in developing an income generating idea, and explore the skills required to adopt an entrepreneurial culture.

- Assess an organisation's potential for trading goods or services
- Understand the processes involved in developing a trading idea

Sara Carroll and Nicola Llewelyn – WCVA, Sustainable Funding Cymru, and Dave Edwards, Vale CVS

10. Improving your applications for trust funding

(see 5 above)

11. Contracts with confidence

The latest research confirms that local authorities across Wales are moving away from grant funding towards a contract culture. Clearly many organisations in the sector are willing to take on contracts and service level agreements – but staff and trustees sometimes lack the necessary experience to challenge and change some of the documentation that's coming their way.

This session is aimed at 'contract novices' and will :

- outline the nature and context of contracts
- explain what should – and should not – go into a service contract

Don't sign on the dotted line unless you know what you're committing your organisation to, and you're confident you can deliver – or take the consequences!

Joan Doyle, Unllais and Enrico Carpanini, WCVA

12. How good is my project?

One of the key questions for funders is how well did the project achieve its outcomes and how will these be evaluated. It is often the case that applicants are being asked to self-evaluate, but how can you do this effectively?

As part of its Activities for Young People (AYP) programme, Big Lottery Fund commissioned Arad Consulting to provide support and advice on self-evaluation to all AYP projects in Wales. This workshop will summarise the key findings of the work by Arad Consulting and give an opportunity for some of the projects involved to share their experiences.

Sioned Lewis, Arad Consulting

13. UnLtd – promoting social entrepeneurs

Behind every initiative, whether it is a local community project or a scheme with national or global significance, there is usually an inspirational leader. These individuals are a powerful force for social change and UnLtd calls these people social entrepreneurs.

UnLtd is a charity that supports social entrepreneurs - people with vision, drive, commitment and passion who want to change the world for the better.

This workshop will highlight UnLtd's unique approach in supporting individuals, whilst exploring issues around what makes a social entrepreneur, how they can be developed and what type of support is required. The workshop will discuss this approach as it relates specifically to young people with reference to UnLtd's new Sport Relief Programme.

Gareth Bickerton – Regional Director UnLtd Wales and Mandi Everson – Development Manager Wales

Wales Council for Voluntary Action is a registered Charity No. 218093
August 2007

Supporting charities, volunteers and communities

wcva

Yn cefnogi elusennau, gwirfoddolwyr a chymunedau

Cynhadledd cyllido sector gwirfoddol Cymru 2007

Arena Ryngwladol Caerdydd, 23 Hydref 2007

Mae meddwl am gyllid mewn modd strategol a chynaliadwy yn hanfodol os yw mudiadau'r trydydd sector i ffynnu, ac nid dim ond goroesi. Mae hyn yn golygu mwy na dim ond gwella'ch ffordd o godi arian neu ddod o hyd i ffynhonnell dragwyddol o arian (does yna ddim!)

Gall y meysydd sy'n cael eu hesgeuluso weithiau megis cynllunio, ymchwil, datblygu sgiliau a gallu, gwybod (a gallu dangos) eich canlyniadau, fod cyn bwysiced â dod o hyd i ffynonellau cyllido yn y dyfodol ac arallgyfeirio incwm.

Yn y gynhadledd gyllido eleni, ceir golwg gyffredinol ar y tueddiadau, y cyfleoedd a'r sialensiau o ran cyllido, gan gynnwys y datblygiadau diweddaraf yn Rhaglen Cydgyfeirio Ewrop, a thrafodaeth panel yn cynnwys pob un o gyrff dosbarthu'r loteri yng Nghymru.

Mae hefyd yn cynnig amrywiaeth eang o weithdai a seminarau ymarferol – pob un â phwyslais ar gynaliadwyedd. Ni ddewch o hyd i bot o aur nac atebion syml i sefyllfaoedd cyllido dyrys – ond fe gewch chi wybodaeth am y canlynol:

Cynghorion a thechnegau caffael

Codi arian dros y we

Diwallu anghenion 'cyllidwyr canlyniadau'

Contractio'n hyderus

Gwella eich ceisiadau i ymddiriedolaethau

... a mwy!

Fe'ch cynghorir i archebu'ch lle'n gynnar!

Cefnogwyd gan
Supported by

CRONFA LOTERI FAWR
BIG LOTTERY FUND

Rhaglen

10.15 **Croeso a Chyflwyniadau**
Win Griffiths, Cadeirydd WCVA

10.30 **Cyfarfod llawn 1: Yr amgylchedd cyllido presennol ac i'r dyfodol**
Bydd Anna Southall, ymddiriedolwr o Ymddiriedolaeth a Chronfa Barrow Cadbury, aelod o'r Panel Ymgynghorol ar Futurebuilders ac Is-gadeirydd Bwrdd DU y Gronfa Loteri Fawr, yn darparu trosolwg o safbwynt y DU. Yna hawl i holi.

11.05 **Cyfarfod llawn 2: Ymgyfarwyddo gyda'r Rhaglen Gydgyfeirio Ewropeaidd**
Bydd Gretel Leeb, Cyfarwyddydd Adran Rheoli Rhaglenni, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, yn rhoi i chi fanylion y datblygiadau diweddaraf. Yna hawl i holi.

11.40 **Coffi**

12.00 **Gweithdai a seminarau:**

1. **Caffael a'r trydydd sector**
2. **Cynaladwyedd – dod o hyd i'r gymysgedd gywir**
3. **Cyllido Canlyniadau – esbonio'r gwahaniaeth**
4. **Grundtvig – eich pasport i gyfleoedd Ewropeaidd ym maes addysg i oedolion**
5. **Gwella eich ceisiadau am nawdd gan ymddiriedolaethau (i'w ailadrodd yn sesiwn y prynhawn)**
6. **Gwneud Cymorth Rhodd yn llai o dreth arnoch**
7. **Ffiniau newydd – codi arian dros y we**

13.10 **Cinio**

14:15 **Gweithdai a seminarau:**

8. **Nawdd gan Gyngor Chwaraeon Cymru**
9. **Paratoi ar gyfer... masnachu**
10. **Gwella eich ceisiadau am nawdd gan ymddiriedolaethau**
11. **Contractau gyda hyder**
12. **Pa mor dda ydy fy mhrosiect i? Astudiaeth achos am hunanwerthuso**
13. **Unltd – cynorthwyo entrepreneuriaid cymdeithasol**

15.25 **Cyfarfod llawn 3: Y Loteri Genedlaethol yng Nghymru – rhaglenni i'r dyfodol, sialensiau i'r dyfodol**

Bydd y cyrff allweddol sy'n dosbarthu arian loteri yng Nghymru yn rhoi'r diweddaraf yn gryno am eu rhaglenni ariannu.

Ceri Doyle, Cyfarwyddydd Cymru, y Gronfa Loteri Fawr; Graham Williams, Rheolydd Rhanbarthol Cymunedau Gweithredol, Cyngor Chwaraeon Cymru; Jennifer Stewart, Rheolydd Cymru, Cronfa Dreftadaeth y Loteri; a Jane Clarke, Cyfarwyddydd Gweithrediadau, Cyngor Celfyddydau Cymru. Yna trafodaeth banel.

16.20 **Sylwadau i gloi**

16.30 **Te a choffi**

Gweithdai a seminarau

1. Caffael a'r trydydd sector

- Mae darparwyr y trydydd sector yn aml yn credu eu bod dan anfantais pan fydd yn fater o gystadlu am gontractau'r sector cyhoeddus.
- Mae caffaelwyr sector cyhoeddus yn credu eu bod yn gwneud pob dim y gallant i hyrwyddo llwyfan cystadlu tegs

Mae'r gymysgedd anhapus hon ambell dro wedi arwain at chwalu perthnasau a methu cyfleoedd.

Nod y sesiwn hon yw rhoi eglurhad o reolau a phrosesau caffael y sector cyhoeddus, gyda rhai awgrymiadau defnyddiol ar sut i ennill tendrau. Bydd hefyd yn cynnwys y diweddaraf am y gwaith a wna Gwerth Cymru a sefydliadau eraill i roi sylw i rai o'r sialensiau a wyneba mudiadau'r trydydd sector wrth gystadlu am gontractau'r sector cyhoeddus.

Gunther Kostyra, Pennaeth Rhaglen Caffael Cynaliadwy, Gwerth Cymru a Llinos Price, Hyrwyddwr Cyflenwyr yng Ngheredigion

2. Cyllid cynaliadwy – dod o hyd i'r gymysgedd gywir

'Does dim rhaid i ni boeni am ein dyfodol, rydym wastad wedi gallu denu arian grant ac rydym yn hyderus y byddwn wastad yn gwneud hynny'.

Gall mudiadau'r trydydd sector, fel arfer, ddod o hyd i arian i gic-danio prosiectau, ond eu bod yn ei chael yn anodd dod o hyd i arian i barhau. Mae llawer yn teimlo eu bod wedi'u dal yn y cylch cyllido ac yn dibynnu ar arian grant fel un o'r prif ffynonellau incwm.

Bydd y gweithdy hwn yn cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyllid cynaliadwy a bydd yn eich helpu chi i 'ganfod y cyfuniad cyllido cywir'.

- Cynaladwyedd – pam nawr?
- Beth ydy cyllid cynaliadwy?
- Beth ydy'r sbectrwm incwm?
- Camau tuag at gynaladwyedd

Sara Carroll a Nicola Llewelyn – WCVA, Cyllid Cynaliadwy Cymru a Lorna Irwin, PAVS.

3. Canlyniadau – esbonio'r gwahaniaeth

Canlyniadau ydy'r newidiadau neu'r gwahaniaeth y gall eich prosiect ei wneud dros amser. Un ffordd hawdd o feddwl amdanynt yw mai dyma ganlyniad yr hyn a wnewch, yn hytrach na'r gweithgareddau neu'r gwasanaethau a ddarparwch. Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gorff cyllido canlyniadau. Mae hyn yn golygu ein bod yn glir am y newidiadau ehangach yr ydym eisiau i'n cyllid eu cyflawni – mae gennym fwy o ddiddordeb yn y canlyniadau y bydd y prosiectau yn eu cyflawni na'r gweithgareddau neu'r gwasanaethau a ddarparant.

Bydd y gweithdy yn edrych ar:

- Beth ydy canlyniad?
- Beth ydy corff cyllido canlyniadau? – Agwedd y Gronfa tuag at gyllido canlyniadau
- Beth mae canlyniadau yn ei olygu i brosiectau?
- Sut y gallwch ddangos eich bod wedi cyflawni eich canlyniadau?

Sue Spurrier a Fflur Lawton, y Gronfa Loteri Fawr

4. Grundtvig – eich pasport i gyfleoedd Ewropeaidd ym maes addysg i oedolion

Mae'r rhaglen Grundtvig yn rhan o raglen newydd Dysgu Gydol Oes y Comisiwn Ewropeaidd a'i nod yw cryfhau'r dimensiwn Ewropeaidd ym maes addysg i oedolion a dysgu gydol oes ledled Ewrop. Gall unrhyw un mewn addysg i oedolion gyfranogi yn y rhaglen hon gan gynnwys oedolion sy'n dysgu, athrawon a hyfforddwyr o amrywiol sefydliadau gan gynnwys awdurdodau lleol, cyrff anllywodraethol, elusennau, prifysgolion, a grwpiau cymunedol.

Bydd y gweithdy hwn yn amlinellu'r cyfleoedd sydd ar gael dan Grundtvig ac yn esbonio sut y mae'r rhaglen yn cynnig profiad gwych ar gyfer dysgu a datblygiad personol i staff a dysgwyr fel ei gilydd.

Jane Nimmo, Pennaeth Grundtvig, a Helen Hotchkiss, Rheolydd Prosiect Grundtvig

5. a 10. Gwella eich ceisiadau am nawdd gan ymddiriedolaethau

Ffocws cyffredinol fydd i'r gweithdy rhyngweithiol hwn, a bydd yn ystyried pa nodweddion sydd i gais da (a gwael) am nawdd o safbwynt Sefydliad Esmee Fairbairn a Sefydliadau Lloyds TSB. Gyda lwc, bydd y cyfranogwyr yn gadael gyda gwell dealltwriaeth o'r ffordd y mae cyrff cyllido yn gweithio ac yn meddwl, a bydd ganddynt hefyd o bosib ychydig yn fwy o syniadau am sut y gallant wella eu ceisiadau i'r dyfodol.

Sefydlwyd **Sefydliad Esmee Fairbairn** ym 1961 gan Ian Fairbairn; roedd ei gwmni ef, M&G, yn arloesi cynnyrch ariannol a oedd yn ehangu mynediad at y farchnad stoc i bobl fel chi a fi, gan ganiatáu iddynt am y tro cyntaf rannu yn nhwf economaidd y wlad. Chwaraeodd ei wraig, Esmee, ran amlwg yn natblygiad Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol y Merched a mudiad y Canolfannau Cyngor ar Bopeth, cyn cael ei lladd mewn cyrch awyr tua diwedd yr ail ryfel byd.

Mae'r Sefydliad wedi ymdrechu i lynu wrth ddiddordebau a phryderon Ian ac Esmee ac mae'r blaenoriaethau presennol yn cynnwys pedair prif raglen o weithgareddau - Celf a Threftadaeth, Addysg, yr Amgylchedd a Newid Cymdeithasol: Menter ac Annibyniaeth.

Yn ystod 2007 bu'r Sefydliad yn cynnal adolygiad trefniadol eang gyda'r canllawiau terfynol i fod i gael eu cyhoeddi yn y Gwanwyn.

Cenhadaeth **Sefydliadau Lloyds TSB ar gyfer Lloegr a Chymru** yw i gefnogi a gweithio mewn partneriaeth gyda mudiadau elusennol sy'n helpu pobl dan anfantais i gymryd mwy o ran yn eu cymunedau led led Lloegr a Chymru. Fel un o'r rhoddwyr grantiau mwyaf yn y DU, mae'r Sefydliad yn ariannu miloedd o elusennau bychain a chanolig bob blwyddyn i weithio i daclo anfantais ac mae wedi rhoi grantiau o dros £115 miliwn dros y pum mlynedd ddiwethaf. Mae'r Sefydliad yn cynnig grantiau un i dair blynedd yn ôl maint yr elusen ac yn cynnig cyllido craidd a phrosiect.

Mae'r Sefydliad yn cynnal arolygiad trwyadl o'i raglenni ar gyfer 2008.

John Mulligan, Sefydliad Esmee Fairbairn a Mike Lewis, Sefydliad Lloyds TSB

6. Gwneud Cymorth Rhodd yn llai o dreth arnoch

Cymorth Rhodd ydy'r cynllun rhoddi treth-effeithlon a ddefnyddir fwyaf yn y DU ac mae oddeutu 10 miliwn o oedolion yn defnyddio Cymorth Rhodd gydag un neu ragor o'u rhoddion mewn mis arferol. Serch hynny, mae mwy y gellir ei wneud i sicrhau bod elusennau cofrestredig a chyrff cymunedol llai yn elwa'n llawn oddi wrth y ffynhonnell incwm ddigyfyngiad hon. Bydd y gweithdy hwn o fudd i'r rheini sy'n ymwneud â rheoli a chodi arian i elusennau bach a chanolig yn ogystal ag i fudiadau cymunedol. Bydd y gweithdy:

- Yn rhoi trosolwg ar Gymorth Rhodd
- Yn ystyried ffyrdd o ddefnyddio cyfleoedd Cymorth Rhodd i'r eithaf
- Yn trafod dyfodol Cymorth Rhodd yn dilyn newidiadau'r Trysorlys i'r gyllideb

Iestyn Evans, WCVA , Swyddog Rhoddi Cymru

7. Ffiniau newydd – codi arian dros y we

Gyda rhoi arlein yn cyrraedd dros £100m y flwyddyn, mae 90% o elusennau mawr yn cynnig y cyfleuster hwn. Mae llawer yn adeiladu rhwydweithiau arlein drwy greu grwpiau ar Facebook, tudalennau ar MySpace a gwasanaethau cynhenid yn Second Life.

Ond mewn amgylchedd sy'n newid yn gyflym ac yn cael ei reoleiddio yn llac, mae'n beryg i fudiadau gwirfoddol gael eu halltudio, cam-gynrychioli neu, yn syml, bod yn weddill. Ac a ydy gweithredu arlein dim ond yn tynnu sylw oddi ar y gwaith pwysig o newid bywydau 'real' a go iawn pobl?

Bydd y gweithdy ymarferol hwn yn chwalu hud datblygiadau newydd ar y we, ac yn trafod sylfaeni cynllunio strategaeth arlein, Bydd yn dangos sut y gall hyd yn oed y mudiad lleiaf oresgyn drwy ddefnydd effeithiol o dechnoleg newydd.

Nick Aldridge, Prif Swyddog Gweithredol, MissionFish UK (elusen bartner eBay) a Nick Croall, Rheolydd Cyfrifon Elusennau, everyclick

8. Cyfleoedd i gael nawdd gan Gyngor Chwaraeon Cymru

'Os ydy e yno, mi rodda i'r arian i chi fy hunan.' Les Dennis, cyflwynydd Family Fortunes

Mae'n bosib na fyddech yn credu hynny, ond mae gennym lawer yn gyffredin gyda Mr Dennis...

Efallai'n wir mai ein bywoliaeth ni ydy hybu lles drwy chwaraeon a gweithgaredd corfforol, ac efallai mai'r amgylchedd, iechyd neu adfywio cymunedol ydy'ch bywoliaeth chwithau. Eto, nid oes dim gwadu ein bod ni'n dau yn cyfoethogi ac yn gwella bywydau pobl.

Yn wir, gydag ychydig o gefnogaeth ariannol gennym ni, mae'n ddigon posib y byddech mewn sefyllfa lawer gwell i gyflawni'r hyn sydd gennym ni mewn golwg...

Bydd y gweithdy hwn yn agor eich llygaid i'r cyfleoedd sydd ar gael drwy feithrin cysylltiadau gyda phartner newydd sbon, a'ch helpu i ganfod byd cwbl newydd o gyfleoedd i'r sector gwirfoddol. Gyda llond gwlad o syniadau wrth law – a'r cyllid i'w rhoi ar waith – nawr yw'r amser i ni'n dau ehangu ein gorwelion. Ac os ydy'ch syniadau chi i fyny yna, fe rown ni'r arian i chi ein hunain!

Angela Farr, Uwch Swyddog Cymunedau Gweithredol, Cyngor Chwaraeon Cymru

9. Paratowch ar gyfer...masnachu

Mae mudiadau trydydd sector yn dod yn fwyfwy ymwybodol y dylent fod yn ceisio datblygu cyfuniad cyllido cynaliadwy a dibynnu llai ar grantiau. Bydd y gweithdy hwn o fudd i'r rheini sy'n ceisio cynhyrchu incwm drwy werthu nwyddau neu wasanaethau.

Bydd hefyd yn rhoi trosolwg ar y llwybrau i'w dilyn i ddatblygu syniad i gynhyrchu incwm, ac yn archwilio'r sgiliau sy'n ofynnol i fabwysiadu diwylliant entrepreneuraidd.

- Asesu potensial mudiad i werthu nwyddau neu wasanaethau
- Deall y prosesau sy'n gysylltiedig â datblygu syniad masnachu

Sara Carroll a Nicola Llewelyn – WCVA, Cyllid Cynaliadwy Cymru, a Dave Edwards, Vale CVS

10. Gwella eich ceisiadau am nawdd gan ymddiriedolaethau

(gweler 5 uchod)

11. Contractau gyda hyder

Mae'r gwaith ymchwil diweddaraf yn cadarnhau bod awdurdodau lleol ar draws Cymru yn symud ymaith oddi wrth arian grant tuag at ddiwylliant contractau.

Yn amlwg, mae nifer o fudiadau yn y sector yn barod i ymrwymo i gontractau a chytundebau lefel gwasanaeth - ond nid oes gan staff ac ymddiriedolwyr yn aml y profiad angenrheidiol i herio a newid rhai o'r dogfennau a ddaw ger eu bron.

Bwriedir y sesiwn hon ar gyfer y rheini sy'n newydd i gontractau a bydd :

- yn amlinellu natur a chyd-destun contractau
- yn esbonio beth ddylai – a beth na ddylai – gael ei gynnwys mewn contract gwasanaeth

Peidiwch â llofnodi dim oni bai eich bod yn gwybod beth yr ydych yn ymrwymo eich mudiad iddo, a'ch bod yn hyderus y gallwch gyflawni – neu gymryd y canlyniadau!

Joan Doyle, Unllais ac Enrico Carpanini, WCVA

12. Pa mor dda ydy fy mhrosiect i?

Un o'r cwestiynau allweddol i gyrff cyllido ydy i ba raddau y cyflawnodd y prosiect ei ganlyniadau a sut y caiff y rhain eu gwerthuso. Yn aml, gofynnir i ymgeiswyr wneud hunanwerthusiad, ond sut gallwch wneud hyn yn effeithiol?

Fel rhan o'i rhaglen Gweithgareddau i Bobl Ifanc (GiBI), mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi comisiynu cwmni Arad Consulting i roi cymorth a chefnogaeth ar gyfer hunanwerthuso i holl brosiectau GiBI yng Nghymru. Bydd y gweithdy hwn yn crynhoi canfyddiadau allweddol y gwaith gan Arad Consulting ac yn rhoi cyfle i rai o'r prosiectau dan sylw rannu eu profiadau.

Sioned Lewis, Arad Consulting

13. UnLtd - hybu entrepreneuriaid cymdeithasol

Y tu ôl i bob cynllun, boed e'n brosiect cymunedol lleol neu'n gynllun o bwysigrwydd cenedlaethol neu fyd-eang, mae fel arfer arweinydd ysbrydoledig. Mae'r unigolion hyn yn rym pwerus dros newid cymdeithasol ac mae UnLtd yn galw'r bobl hyn yn entrepreneuriaid cymdeithasol.

Elusen sy'n cefnogi entrepreneuriaid cymdeithasol ydy UnLtd – pobl â gweledigaeth, cymhelliant, ymroddiad ac angerdd, sydd eisiau newid y byd er gwell.

Bydd y gweithdy unigryw hwn yn tynnu sylw at ddull gweithredu unigryw UnLtd yn cynorthwyo unigolion, wrth archwilio materion sy'n gysylltiedig â'r hyn sy'n gwneud entrepreneur cymdeithasol, sut gellir eu datblygu a pha fath o gymorth sy'n ofynnol. Bydd y gweithdy hwn yn trafod y dull gweithredu hwn a'r modd y mae'n berthnasol yn benodol i bobl ifanc o safbwynt Rhaglen Sport Relief newydd UnLtd.

Gareth Bickerton – Cyfarwyddwr Rhanbarthol UnLtd Cymru a Mandi Everson – Rheolwr Datblygu Cymru

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn elusen gofrestredig rhif. 218093
Awst 2007